

# Gweithdy Mamaliaid Coedwigoedd Cymru

Ar gyfer disgyblion 7-11

Ar gael gwanwyn 2024



## Amcanion Dysgu

- Dysgu am wiwerod, belaad coed, pathewod ag ystumod
- Dysgu am effaith pobl ar natur
- Perthynas rhwng anifeiliaid a'u cynefinoedd

## Sgiliau

- Gwaith tîm: cyfathrebu a llafaredd
- Datrys problemau
- Bod yn greadigol

## Iechyd a Lles

- Gemau addysgol hwyl
- Gweithgareddau corfforol
- Ystyried ein teimladau



Mae'r gweithdy hanner diwrnod hwn ar gael yn ystod Gwanwyn 2024. Cewch weld argaeledd diweddaraf ar y safle we ac archebu ar-lein trwy ddefnyddio cerdyn banc/credyd. Neu cewch e-bostio Anita Daimond [anita@anturnatur.cymru](mailto:anita@anturnatur.cymru) gyda'ch dewis dyddiad er mwyn derbyn anfoneb i chi talu trwy'r banc.

Cost i ysgolion o fewn 30 milltir o Fethesda (LL57 3EU) yw £180 ar gyfer un dosbarth (<30 disgybl) am hanner diwrnod neu os gennych chi dau dosbarth £300 am diwrnod cyfan (hanner diwrnod yr un). Croeso i ysgolion bach sydd yn gyfagos i'w gilydd cyfuno er mwyn archebu diwrnod cyfan rhyngddo'ch.

Yn ystod y gweithdy, byddaf yn defnyddio dulliau corfforol a chreadigol i annog dysgu am famaliaid coedwigoedd Cymru mewn ffordd hwyl.

Bydd pwyslais ar y berthynas rhwng gwiwerod coch, gwiwerod llwyd a bele'r coed, hefyd byddwn yn dysgu am gynefinoedd coedwig addas ar gyfer pathewod ag ystumod.

Bydd angen mynediad at y we a sgrin fawr ar gyfer y cyflwyniad cychwynnol. Wedyn mi fydd angen ardal gyda digon o le i ni symud o gwmpas e.e. neuadd neu ardal tu allan (yn ddibynnol ar y tywydd).

Mae'n bosib addasu'r gweithdy ar gyfer disgyblion oed 11-14.